

Y Beibl mewn Addoliad

- ❖ Mae'r Beibl yn ganolog i'n gwasanaethau
- ❖ Ceir gwahanol fersiynau o'r Beibl sy'n addas ar gyfer mathau gwahanol o addoliad
- ❖ Rhaid cyflwyno, cyhoeddi a darllen y Beibl mewn modd priodol


Mae cynnwys y Beibl ym mhobman....

❖ Galwad i addoli

❖ Gweddi

❖ Emyn

❖ Darlleniadau



Defnyddiwyd yr ysgrythur o'r cychwyn

- Hyd nes i mi ddod, rhaid i ti ymroi i'r darlleniadau a'r pregethu a'r hyfforddi.

1 Timotheus 4:6

- Daeth i Nasareth, lle yr oedd wedi ei fagu. Yn ôl ei arfer aeth i'r synagog ar y dydd Saboth, a chododd i ddarllen. Rhoddwyd iddo lyfr y proffwyd Eiseia ac agorodd y sgrôl a chael y man lle'r oedd yn ysgrifenedig: "Y mae Ysbryd yr Arglwydd arnaf, oherwydd iddo f'eneinio ..."

Luc 4: 16-21

Pa fersiwn?

❖ Yr Hen Gyfieithiad

❖ Y Beibl Cymraeg Newydd Diwygiedig

❖ Beibl.net

I Cor. 13:1-3

- Pan mae geiriau testun sanctaidd ond yn cael eu darllen fe pe deuent o lyfr rhifau ffôn, does yna ddim cyswllt amlwg rhwng bywyd mewdol y darllenydd a'r hyn y mae'n ei ddarllen. Collwyd y cydgysylltiad rhwng y geiriau a gwybodaeth y pen a'r galon, y cysylltiad a bair fod y storiwr yn adrodd y stori wrth y gynulleidfa mewn modd sy'n eu swyno hwy, ond sydd hefyd yn ei swyno yntau.

Eseia 6:1-8

- Dylai darllen y Beibl gyd-fynd ag ymdeimlad o ddisgwyliad y ceir ynddo obaith a gwirionedd. Ac wrth ddarllen rhaid i'r darllenydd feithrin agwedd ymholgar tra ar yr un pryd yn anwybyddu disgwyliadau cyffredin, a hynny er mwyn mynd i mewn i fyd rhyfeddol y testun... Rhaid bod yn barod i groesawu newid.

Dewis Darlleniad

- Dewiswch ddarnau addas ar gyfer eich thema, ystyriwch ddefnyddio darn o'r Hen Destament a darn o'r Testament Newydd.
- Os oes angen darn gweddol hir, gellid ei ddarllen fel dau ddarn byrrach neu gellid crynhoi neu hepgor rhan ohono.

Ystyriwch sut y gellid ei ddarllen

- Gennyich chi eich hun neu rywun arall
- Fel deialog gan nifer o ddarllenwyr - ond rhaid wrth ddigon o baratoad ymlaen llaw.
- Dwywaith gan ddefnyddio fersiynau gwahanol
- Os oes Beiblau ar gael i'r gynulleidfa gall pawb ddarllen y darn ynghyd, neu gallai'r arweinydd a'r gynulleidfa ddarllen adnod bob yn ail – byddai'n rhaid wrth gyfarwyddyd eglur.

Dylai'r darlleniad gael ei gyhoeddi mor glir a syml a phosibl

- Dylid cyhoeddi'r llyfr y daw'r darlleniad ohono gan nodi'r bennod a'r adnodau
- Os oes Beiblau ar gael yn y seddau dylid cyhoeddi rhif y tudalennau hefyd
- Dylid rhannu'r manylion hyn ddwywaith a rhoi digon o amser i'r gynulleidfa ddod o hyd i'r adrannau yn eu Beiblau eu hunain.
Gwrandewch am y distawrwydd wedi sŵn siffrwd y tudalennau.

Efallai y bydd angen cyflwyno'r darlleniad

- Pam y bu i'r llyfr gael ei ysgrifennu a chan bwy?
- Beth geir o flaen yr adrannau a ddarllenir?
- Pam y bu i chi ddewis y darlleniad?
- Dylid paratoi sylwadau o'r fath yn ofalus a chryno ac osgoi cyflwyniadau hirfaith!

Darllen gydag ymdeimlad o'r ystyr

- Ymgylfarwyddwch â'r darn a gwerthfawrogwch y ddrama.
- Dylid ymarfer ei ddarllen yn uchel.
- Darllenwch ychydig yn arafach nag y byddwch yn siarad, ond nid yn rhy araf.
- Os oes gennych lais uchel lleddfwch eich goslef.
- Defnyddiwch seibiannau'n greadigol.
- Amrywiwch eich goslef a chyflymder y darllen.
- Peidiwch a gostwng eich llais ar ddiwedd brawddeg.
- Ceisiwch ddal llygaid aelodau eich cynulleidfa mor aml â phosibl.

I ddechrau a diweddu'r darlenniad

I ddechrau

- 'Gwrandewch Air yr Arglwydd.'
- 'Gadewch i ni wrando ar Air Duw.'

I ddiweddu

- 'Amen'
- 'Diolch i Dduw am ei Air'
- 'Bendithied yr Arglwydd y darllen a'r gwranddo o'i Air'

Sut i ddewis thema.

Dylech ystyried

- ❖ profiad personol
- ❖ defosiwn personol
- ❖ pynciau cymdeithasol/cenedlaethol
- ❖ tymhorau'r flwyddyn Gristnogol
- ❖ Darlleniadur – os cyfarfod canol wythnos defnyddiwch ddarlleniadau'r Sul blaenorol.

Brawddegau ysgrythurol

Y flwyddyn Gristnogol

Gwaith cartref

Dewiswch ddarn o ysgrythur o tua 10 adnod, ymglyfarwyddwch ag ef a pharatowch i'w ddarllen yn gyhoeddus yn y dosbarth y tro nesaf.

Philippiaid 4:6-7

Peidiwch â phryderu am ddim, ond ym mhob peth gwneler eich deisyfiadau yn hysbus i Dduw trwy weddi ac ymbil, ynghyd â diolchgarwch. A bydd tangnefedd Duw, sydd goruwch pob deall, yn gwarchod dros eich calonnau a'ch meddyliau yng Nghrist Iesu.